

DARGANFOD LLEOLIAD MELIN ENWOG

Eurwyn Wiliam

Summary: a cywydd of c.1550 asks for a pair of Anglesey millstones for a mill at Penyberth, Llŷn, Caernarfonshire. This note records the accidental discovery of the ruins of that mill in 1985.

Tua'r flwyddyn 1550 canodd y bardd Morus Dwyfach gywydd enwog i ofyn maen melin dros Thomas Gruffydd o Benyberth ym Mhenrhos yn Llŷn, gan ei chyfeirio at Robert ap Rhisiart Gruffydd o Fôn. Mae'r cywydd yn cynnwys y disgrifiadau manwl cyntaf yn yr iaith Gymraeg o rai o rannau melin ddŵr gan ei bod ychydig yn gynharach na Llawysgrif Peniarth 56 (a ysgrifennwyd yn 1563) ac sy'n rhestru'n fanwl ddyletsyddau'r melinydd yn y cyfnod hwnnw⁽¹⁾. Gofyn am feini Môn y mae'r cywydd, canys yno

... Kodir o bridd-dir brau
Ynn aml iawn fain melinau

er mwyn i Thomas Gruffydd orffen adeiladu melin gerllaw ei gartref ym Mhenyberth.

Cyhoeddwyd y cywydd gan Myrddin Fardd yn Cynfeirdd Lleyrn⁽²⁾; ond gan fod y llyfr yn brin erbyn hyn dyma gyhoeddi'r cywydd eto fel yr ymddengys yn y llyfr:

KOWYDD I OFUN MAIN MELIN.

DROS S: THOMAS GR: GAN EI GEFNDR

ROBT. AP RISIART GR. O SIR FÔN

Y dulwyd baun, daliad budd,
Di fwnws waed Efonydd;
Teg mewn gras i'th urddaswyd,
Tŵr a maen aur tir Mon wyd.
A rhwyddlew sad rhoddles yn
Ir gwayw onfraisc o'r Gwnfryn.
Y mysc pawb ymwasc pybyr
Wineudeg walch enaid gwy.
Arwydd ffawd iraidd a ffert
A dewr wiw-barch wyd Robert.
Mael i 'roedd mîl arwyddion
Dy lan dad dylun i dôn.
Rissart doechwart odd eichwin,
Rysswr gorph rhoes aur a gwin.

A gwleddoedd bwyd goleuddawn
Yn i dda lwys neuadd lawn.
Lle biasai ail Gwalchmai gynt,
Gruffydd y gwr a hoffynt.
A Sion ni bu urddas hwy,
Wr goreunerth aer Gronwy.
Dithau, bendefig doethwych,
Hir y bo'r tâl, Robert wych.
Yn wresog oludog wledd
Wyt ar hain ond da rhinwedd.
Ag a'th daid mewn gwaith didwyll,
Robert Vychan perllan pwyll.
Myn'd yn bellach a'th iachau,
Nid edy brys oed Duw brau.

Er nad oes glan rann dwys glod
Un bonedd na bo ynod.
Mal Ifor aml i ofyn
Ymrig gwiw serch merkiais hyn.
Tario i rwyd wr tirion
Ar y fâl oreu o Fôn,
Lle kodir o bridd-dir brau
Ynn aml iawn fain melinau.
A Sion, dy gefnder, y sydd
Waisc griffwnt Tomas Gruffudd.
Yn Llŷn wen, winllan wynedd,
Gerllaw i dŷ gwr llwyd wedd
Wedi kael adeg hwylywch
Ymlaen nant le melin wych.
A phe kaid main, glain y glod,
Yr hen bôr a'i rhoe'n barod.
Er Duw Robert warr dy rybyr,
Dann y pwyll daioni pyr,
Moes gerrig grymys geirwon
Dan y sail i'w dwyn i Sion.
Un a'i rhydd i weini rhawg
Ar dagell ffrwd redegawg.
A dwy olwyn i'w dilyd,
Droellau waith er dryllio f̄d.
Olwyn wrth bal tal i tŷ,
Ag olwyn dann i gwely.
Wrth rywl oddiwrth yr olwyn,
O haearn drŷd hir iawn drwyn.
Ys gwych o ddyfais a gaf,
Mewn awch i droi'r maen uchaf.
A gadu'r llall gida'r llawr,
Dano heb sylvyd unawr.

Untau ar ffull natur ffô,
Os dwr a roir i'w sturo.
Chwyrn grwn y chwery'n i gryd,
A'i lwydliw yn olydlyd.
O'i chware fo, blaendro blin,
Was moel y monwes melin.
Gwn waith gwir gwenith i gant,
A beillir yn ddiballiant.
Ag efo i frawd, gorwynawd gnith,
Yr ail gwyn ar ol gwenith.
Keirch lawer, ddiofer ddau,
A biliant rhwng i boliau.
I skwrio tasc was graid hwyl,
Awch hyles, kynn uchelwyl.
Gore gwaith o gerrig ynt,
.
Gredyll gwâg, brag ymol bryn
Fry yn ufudd i fro Nefynn.
Gwlad sy well glowed i swn,
Gwerenau o gwrr anwn.
Llechi a'u ffull mewn llwch ffau,
Llwydion mwy nâ lleuadau.
Lle mae rhaid llew mawr i hur,
Wrthyn' goetenau Arthur.
Moes i kael, rym ossawc ku,
Kaws elltydd i'w kysylltu.
A chan Sion, wych hynaws waith,
Dy gefnder, da gyfiondaith.
Kymer fawl Kymro o Fôn
A mawr glod am wâr gledion.

Erhyn canol y 16eg ganrif yr oedd melinau Cymru yn dechrau cael eu rhyddhau o ddwylo'r Goron a'r arglwyddiaethau mawr ac yn dod i ddwylo tîrfeddiannwyr llai. Yr oedd y broses yn rhwym o achosi trafferthion, ond

oherwydd y dadleuon cyfreithiol a ddilynai ceir cryn oleuni ar drefniadaeth rhai melinau. Yn 1605, er enghraifft, daeth John Bodfel o Fodfel ag achosion yn Llys Siambr y Seren yn erbyn teulu Fychaniaid Cors-y-gedol, Meirionnydd o dresmasu ar y felin yr oedd newydd ei chodi yn Nhyddyn yr Hendre ger Abererch yn Llŷn, ac o falu'r drysau a pheri i'r rhod droi heb yd yn y felin nes i'r meini or-dwymo a mynd yn dda i ddim, ac yn ddiweddarach, ddiinstrio cwrs y dŵr a'r argaeau. Dygwyd achos pellach yn erbyn y cyhuddedig o geisio llwgrwobrwo'r rheithgor⁽³⁾.

Yn 1620, daeth Gruffydd Madryn ag achos yn erbyn John Wynn ac eraill yn Llys y Trysorlys, gan honni eu bod wedi gwrthod dod ag yd i'w falu ym melin Boduan, Llŷn, a ddaliai gan y Goron. Honnai ymhellach fod rhyw 'drigain o denantiaid ac is-denantiaid wedi uno o dan nawdd John Wynn i gau pob ffordd a arweiniai at y felin ac i droi cwrs y dŵr. Penderfynodd y Llys, fodd bynnag, fod y tenantiaid bob amser wedi malu eu hŷd ym mha felin bynnag a ddewisent, ac felly, collodd Gruffydd Madryn ei achos wrth geisio eu gorfodi i ddefnyddio melin Boduan⁽⁴⁾. Yn aml, rhwymid tenantiaid gan hen arfer 'swydd a gwasanaeth', hynny yw, mynd â'u hŷd i'w falu i felin arbennig o eiddo'r Goron, ac a roddwyd naill ai ar brydles neu yn rhodd i ffefryn a gadwai'r elw iddo ei hun. Yn fynych, fodd bynnag, cymerai'r 'ffermwr' yr elw ond ni chyweiriai'r felin: er enghraifft, yr oedd melin Boduan a enwyd uchod yn dadfeilio ac yn mynd â'i phen iddi yn 1567.

Y Goron ei hunan a roddai'r melinau fel arhegion neu wobrwyon, nes ar les, ac felly hefyd brydlesi y chwareli meini melin. Bu tipyn o helbul ynglŷn â hyn yn 1603 a 1604 yng ngogledd Cymru. Yr oedd Syr Wiliam Maurice ac eraill yn denantiaid chwareli meini melin yng Ngwynedd ac yn 1603 cwynasant i Llys y Trysorlys fod rhai pobl arbennig wedi defnyddio grym er mwyn cael mynediad i'r chwareli a gyrru'r is-denantiaid oddi yno a thorri 600 o feini melin ar gost o £2 yr un. Penderfynodd y Llys, fodd bynnag, fod y rhyddfreinwyr a thrigolion eraill wedi torri meini melin dro ar ôl tro yn un o'r chwareli hyn heb dalu rhent i'r Goron. Yn y flwyddyn ganlynol, cwynodd Maurice unwaith eto fod rhywun wedi cael mynediad trwy rym, a'r tro hwn torrwyd 240 o feini. Unwaith eto, penderfynodd y Llys o blaid y diffynyddion. Yn 1617, daeth yr un diffynyddion gerbron y Llys ar achosion tebyg, gan gynnwys torri 500 o feini melin, bob un yn werth £3 o leiaf⁽⁵⁾. Yr oedd meini melin yn bwysig iawn yn yr economi, felly, ac yn achosi cryn gynnen. Prinder lleoedd addas i agor chwareli meini oedd y rheswm am hyn, canys dim ond rhai mathau o garreg oedd yn addas i'w trin fel meini melin⁽⁶⁾. Yr oedd meini Môn yn ffefrynnau mawr yng ngogledd Cymru: yng nghyfrifon Castell y Waun yn 1751, ceir cofnod am weithiwr

yn cael ei anfon i Fôn i brynu maen melin i Felin Llysfasi a chael ei dalu saith gini am y gwaith⁽⁷⁾. Dyma paham yr oedd Thomas Gruffydd mor awyddus i gael meini Môn i gwblhau ei felin newydd ym Mhenyberth.

Chwalwyd Penyberth ei hun er mwyn creu yr Ysgol Fomio enwog, a bu safle melin Thomas Gruffydd hefyd ar goll ers blynyddoedd lawer. Nodir hi gan y teithiwr Edmund Hyde Hall tua 1810, ond erbyn Map Degwm 1840 dim ond enwau'r caeau (Nant yr Hen Felin a Cae Llidiart y Dŵr) sy'n awgrymu ei lleoliad. Ond yn ystod gwanwyn 1985 bu gweithwyr fferm Crugan, sy'n ffinio â thir Penyberth, yn gwastatau peth o'r tir. Tra'n chwalu rhyw hen adfeilion daethant ar draws dau faen melin mewn cyflwr perffaith⁽⁸⁾. Er eu bod yn amlwg yn hen, mae'n ormod i ddisgwyl mai dyma'r union feini a yrrodd Robert ap Rhisiart Gruffydd wrth ateb ymbil ei gefnder: byddant hwy wedi treulio. Serch hynny, dyma'n amlwg leoli melin enwocaf ein llenyddiaeth cyn i Crwys anfarwoli Melin Trefin.

Nodiadau

- (1) I. C. Peate, 'Traethawd ar Felinyddiaeth', Bwl. Bwrdd Gwyb. Celtaidd 8, rhan IV (1937), tt. 295-301.
- (2) J. Jones, Cynfeirdd Lleyn: 1500-1800 (1905), tt. 176-77.
- (3) I. ab O. Edwards, A Catalogue of Star Chamber Proceedings Relating to Wales (1929), t. 153.
- (4) T. I. Jeffreys-Jones, Exchequer Proceedings concerning Wales in tempore James I (1955), t. 75.
- (5) eto, tt. 9, 49.
- (6) am chwareli meini melin Cymru, gw. D. G. Tucker, 'Millstones, Quarries, and Millstone-Makers', Post-Medieval Arch. (1977), tt. 1-21.
- (7) W. M. Myddleton, Chirk Castle Accounts A.D. 1666-1753 (1931), t. 508.
- (8) Llanw Llŷn 103, Mehefin 1985, t.1.